Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Llanfairpwll

Ffordd Caergybi
Pwllgwyngyll
Ynys Môn
LL61 5TX

Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanfairpwll

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanfairpwll |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 330 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 247 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 2.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 59.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/06/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn gymuned ddysgu ofalgar, amlieithog a chynhwysol lle mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn ei naws deuluol a chynhaliol. Mae'r perthnasoedd weithio gadarn a pharchus rhwng oedolion a disgyblion yn gryfder nodedig sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ymddygiad clodwiw bron bob disgybl a'u hagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Nodwedd hynod arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol yw'r pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg a hyrwyddo Cymreictod trwy brofiadau cyfoes a chyffrous sy'n ehangu gorwelion disgyblion yn effeithiol. Mae'r diwylliant darllen cryf a'r cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain gwerthfawr yn cyfrannu'n sylweddol at eu hymgysylltiad a'u dyheadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gadarn. Caiff darpariaeth gynhwysol a chefnogaeth effeithiol i les emosiynol a chymdeithasol disgyblion effaith gadarnhaol ar eu hyder a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ar draws ystod o fedrau o'u mannau cychwyn amrywiol, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae eu medrau llafar, llythrennedd, rhifedd a digidol yn datblygu'n llwyddiannus dros gyfnod.

Mae arweinwyr a staff yn darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a Chymreig sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yng nghymuned leol yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd cynhwysol yn gyson ac yn gwella dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a pharch tuag at eraill yn llwyddiannus.

Mae addysgu effeithiol a holi medrus gan staff yn arfogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn gyson a gwella'u gwaith yn effeithiol. O oedran cynnar, maent yn dangos annibyniaeth gynyddol ac yn cydweithio'n ddiwyd wrth eu dysgu. Ar draws y ddarpariaeth, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau yn gyson mewn cyd-destunau bywyd go iawn a chreadigol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth angerddol ac ysbrydoledig, a chaiff ei gefnogi'n fedrus gan dîm arwain cydwybodol a chorff llywodraethol ymroddedig. Mae systemau arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol yn grymuso staff i yrru gwelliannau cynaledig yn y ddarpariaeth a'r addysgu o fewn diwylliant cadarn o hunanwella parhaus. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig at ymwybyddiaeth gref arweinwyr o gryfderau'r ysgol a dealltwriaeth glir o'r agweddau ar y ddarpariaeth sydd angen eu mireinio ymhellach. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned ehangach yn gryfder nodedig sy'n cefnogi gwaith a datblygiad parhaus yr ysgol yn llwyddiannus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i weithredu prosesau hunanwerthuso hynod effeithiol yn gyson, gan rannu arferion effeithiol yn ehangach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws ofalgar, gynhwysol a theuluol Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol, yn ymfalchïo ynddi ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae'r perthnasoedd weithio gadarn rhwng staff a'r disgyblion yn gryfder amlwg, wedi'u seilio ar barch ac ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall. Bron heb eithriad, mae disgyblion yn teimlo bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt pan fydd ganddynt unrhyw bryderon. Ar y cyd â threfniadau monitro presenoldeb a phrydlondeb trwyadl, mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gyfraddau presenoldeb uchel a chyson disgyblion dros gyfnod.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol ac ysbrydoledig. Gyda chefnogaeth gref y dirprwy bennaeth ac arweinwyr eraill, maent yn arddel gweledigaeth glir a chytûn sy'n adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol, fel sy'n cael ei fynegi yn ei harwyddair, 'Hwyl mewn gwaith ar daith ein dysg' yn llwyddiannus. Mae'r arwyddair yn ganolog i gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn llywio ei diwylliant yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod lles disgyblion, ynghyd ag addysgu effeithiol, yn ganolog i holl fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn gosod ac yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion, yn ogystal â'u hunain, yn gyson. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr a staff yn arddel gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel a chyson sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ymddygiad clodwiw bron bob disgybl ar draws yr ysgol, a'u hagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu o oedran cynnar. Mae ethos cynhaliol yr ysgol a'r sesiynau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn fwriadus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gwbl ymroddedig ac yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Mae ganddynt ran annatod a chyson yng ngweithdrefnau hunanwerthuso datblygedig yr ysgol. Maent yn defnyddio eu harbenigeddau gwerthfawr yn fedrus i gefnogi a herio arweinwyr yn synhwyrol er mwyn cefnogi gwelliant parhaus yn gyson.

### Ciplun: Grymuso medrau arweinyddiaeth staff i yrru gwelliant parhaus mewn diwylliant o hunanwella

Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythurau arweinyddiaeth ddosranedig hynod effeithiol sy'n galluogi staff ar bob lefel i gyfrannu'n fwriadus at gyfeiriad strategol yr ysgol. Dyrennir rolau arwain yn fedrus i fanteisio ar arbenigedd a chryfderau unigolion, gan sicrhau ymrwymiad cryf arweinwyr at wella agweddau penodol o'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth gadarn o weithgareddau hunanwerthuso trwyadl, ynghyd â mewnbwn gwerthfawr gan grwpiau llais y disgybl, i lunio darlun cytbwys o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w mireinio ymhellach. Trwy brosesau gwerthuso miniog a chynllunio gwelliant bwriadus, maent yn adnabod blaenoriaethau a chamau gweithredu cytûn synhwyrol sy'n canolbwyntio'n glir ar wella lles a dysgu disgyblion yn barhaus.

Mae arweinyddiaeth ddoeth y pennaeth yn meithrin diwylliant cadarn o hunanfyfyrio proffesiynol. Trwy werthuso effaith eu gwaith yn rheolaidd, mae staff yn addasu eu harfer yn fedrus i ymateb i ganfyddiadau. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at welliannau cynaliadwy yn ansawdd yr addysgu, ehangder y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion dros amser.

Rhinwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r sylw cyson a roddir i les disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd helaeth i drafod eu hemosiynau a'u teimladau mewn amrywiaeth o ddulliau priodol, gan gynnwys defnyddio'r 'Cabanau Clyd' fel mannau pwrpasol i gefnogi eu lles emosiynol. Trwy weithredu diwyd y gymdeithas rhieni a chyfeillion, mae arweinwyr wedi buddsoddi'r cyllid a godir trwy amrywiaeth dda o weithgareddau i gryfhau'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu ardal benodol ar dir yr ysgol i gefnogi lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn fwriadus yn ystod cyfnodau egwyl.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau o fannau cychwyn amrywiol. Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gynyddol gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn bwrpasol wrth ysgrifennu llythyr effeithiol at fudiad cadwriaethol i drafod ffyrdd o hyrwyddo a chynyddu niferoedd y wiwerod coch ar Ynys Môn, er enghraifft.

Mae arweinwyr a staff yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth hunaniaethau a pherthnasoedd, gan gynnwys bywydau pobl LHDTC+, mewn dulliau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth ac yn dangos parch at wahanol fathau o berthnasoedd.

Un o nodweddion amlycaf yr ysgol yw'r modd y mae arweinwyr a staff yn arddel dyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion. Maent yn modelu iaith goeth yn gyson sy'n cefnogi disgyblion i feithrin eu medrau siarad Cymraeg yn gynyddol gywir yn eu dysgu a'u chwarae.

### Ciplun: Hyrwyddo medrau disgyblion ac ehangu gorwelion trwy brofiadau cyfoes a Chymreig

Mae ethos cryf o Gymreictod yn nodwedd amlwg o'r cwricwlwm ac yn plethu'n naturiol drwy fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy fentrau creadigol gwerth chweil, fel 'Seleb yn y Sied', caiff y disgyblion hŷn gyfleoedd gwerthfawr i feithrin eu medrau siarad Cymraeg yn gyson wrth gyfweld enwogion adnabyddus ym myd y celfyddydau. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant cyfoes Cymru ac yn ehangu eu dyheadau gyrfaol yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae cyfraniad disgyblion at gynhyrchu 'Newyddion Ysgol Llanfairpwll' yn atgyfnerthu amrediad eang o fedrau yn effeithiol, gan gynnwys eu medrau llythrennedd, digidol a chydweithio, ac yn darparu hyder cynyddol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant cadarn o ddarllen sy'n cyfrannu'n fwriadus at ddatblygu medrau darllen cryf y rhan fwyaf o ddisgyblion. Nodwedd hynod effeithiol o'r ddarpariaeth gynhwysol yw'r modd y mae disgyblion sy'n ymgymryd â rolau arwain yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y ddarpariaeth darllen. Yn ddiweddar, cynhaliodd y 'Criw Cynnydd' arolwg i gasglu barn disgyblion ar eu mwynhad o sesiynau darllen strwythuredig. Yn deillio o ganfyddiadau'r arolwg, gwnaed buddsoddiad wedi'i dargedu'n ofalus mewn amrywiaeth berthnasol o destunau newydd yn Gymraeg a Saesneg, sydd wedi cyfrannu'n gadarn at feithrin cariad disgyblion at ddarllen. Yn ogystal, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion holi awdur lleol wrth drafod y genhedlaeth 'Windrush'. Mae hyn yn tanio'u diddordeb ac yn gwella eu dealltwriaeth o gyfraniad pobl ddu ddylanwadol a diwylliannau eraill yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu cysyniadau mathemategol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau bywyd go iawn perthnasol ar draws y meysydd dysgu. Darperir cyfleoedd ysgogol a chreadigol gan athrawon i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol yn llwyddiannus. Trwy gyfrwng dull creadigol o'u dewis, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau digidol datblygedig yn hyderus ac yn fedrus. Maent yn creu adnodd digidol defnyddiol i gynghori rhieni ar leihau amser sgrin, sy'n cael ei gynnwys yn llawlyfr digidol yr ysgol, er enghraifft.

Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir ar gyfer darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes i ddisgyblion, sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn y gymuned leol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at gynllunio eu dysgu, sy'n cefnogi staff i ddarparu profiadau ysgogol ar eu cyfer. Mae mentrau pwrpasol, gan gynnwys '#LlanfairLleol', yn cryfhau cysylltiadau

ystyrlon rhwng yr ysgol a'i chymuned ehangach, tra bod defnydd hynod effeithiol o ddulliau cyfathrebu amlieithog pwrpasol yn cefnogi ymgysylltiad cynhwysol â rhieni ac yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn a chydweithio iach wrth gefnogi lles a dysgu eu plant.

Cryfder nodedig arall yw'r ddarpariaeth effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cydweithio'n gynhyrchiol â phartneriaethau allanol, gan weithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol yn amserol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd cryf y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Ar draws y ddarpariaeth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb cynhenid yn eu dysgu ac yn ymgysylltu'n dda â'u gweithgareddau dysgu. O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau'n ddiwyd wrth ddysgu yn unigol, gyda phartner ac fel aelod o grŵp. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dysgu'n hynod annibynnol a hyderus gan ddewis yr ardaloedd maent am dreulio amser ynddynt a'r hyn maent am ei ddysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau datrys problemau yn fwriadus wrth gydweithio'n bwrpasol i gynllunio cychod addas i gludo gwrachod Llanddona, er enghraifft.

Trwy ddulliau addysgu cadarn a chytûn, mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol yn bwrpasol. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn darparu tasgau â lefel briodol o her iddynt. Ar draws yr ysgol, mae staff yn rhannu adborth adeiladol â'r disgyblion, sy'n canmol eu cryfderau ac yn nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. O oedran ifanc, mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i'r adborth hwn gan wella rhannau o'u gwaith yn fwriadus.

Elfen gref arall o'r arweinyddiaeth yw'r modd y mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy'n hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff yn barhaus. Maent yn cefnogi staff yn fwriadus i ymgymryd ag ymchwil weithredol yn gyson i wella agweddau penodol ar eu haddysgu. Mae hyn yn meithrin diwylliant cryf o ymddiriedaeth broffesiynol sy'n cymell staff i arbrofi'n hyderus â syniadau a dulliau addysgu a dysgu newydd, heb ofn methu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026